Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

My Ref: NH/HAE
Your Ref:

Annwyl Aelod Ensemble, Rhiant, Gwarcheidwad neu Ofalwr

Ensembles Cerdd – Medi 2018

O ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2018, ni fydd adeilad y Brodordy yn gartref i'r ensembles sy'n cael eu harwain gan y Gwasanaeth Cerdd.

Rwy'n gwybod bod yna gysylltiad hir rhwng Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro a'r adeilad, ond dros y blynyddoedd diwethaf, oherwydd newidiadau i'r defnydd ohono yn ystod y dydd a'r angen am waith trwsio sylweddol, nid yw'n ariannol ymarferol i'r Cyngor barhau i weithredu'r adeilad a phrydlesu'r eiddo gan y perchnogion, Cymdeithas Adeiladu'r Principality.

Mae swyddogion y Cyngor wedi llwyddo i dynnu allan o'r trefniant prydlesu presennol, a byddwn yn gadael yr adeilad ar ddiwedd mis Awst 2018.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gydag Arweinwyr yr Ensembles i ddod o hyd i leoliadau addas, a chyn bod yr Ensembles yn ailddechrau ym mis Medi byddwch yn cael manylion pellach am y trefniadau ar gyfer yr ensemble rydych chi'n aelod ohono. Mae'n bwysig felly fod gan eich Ensemble eich cyfeiriad cywir.

Rydym wedi gweithio'n galed i gadw pob Ensemble ar yr un dydd ac amser, ac mae hyn wedi'i gyflawni ac eithrio'r Gerddorfa Bontio. (Mae llythyr ar wahân yn cael ei anfon at holl aelodau'r Gerddorfa Bontio).

Ar gefn y llythyr hwn mae rhestr lawn o'r Ensembles a'r lleoliad ymarfer o fis Medi 2018.

I grynhoi, bydd yr Ensembles wedi'u lleoli ar draws tri safle; Canolfan Gelfyddydau'r Chapter, Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Safle Isaf) ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

Rydym yn buddsoddi yn y tri safle i alluogi'r Ensembles i ymarfer ac i'r Gwasanaeth Cerdd barhau i gynnig cyfleoedd addysgu, ymarfer a pherfformio. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd Canolfan Gelfyddydau'r Chapter yn galluogi'r Gwasanaeth Cerdd i gynnig cyfleoedd pellach ar gyfer addysgu ac arholiadau cerdd.

PLEASE REPLY TO: Education Service, Room 422, County Hall, Cardiff CF10 4UW Tel (029) 2087 2802
e-mail n.hardee@cardiff.gov.uk

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

Rwy'n gobeithio y gallwch barhau i gefnogi'r Gwasanaeth Cerdd ac edrychaf ymlaen at eich gweld ym mis Medi.

Yn gywir,

N Hardee

Neil Hardee
Pennaeth Perfformiad, Adnoddau a Gwasanaethau

Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a Bro Morgannwg

Lleoliadau Ensembles ar gyfer Medi 2018

Lleoliad	Ensemble
Canolfan Gelfyddydau'r Chapter	Band Chwyth Pontio
Market Road	Band Chwyth Hŷn
Caerdydd, CF15 1AS	Côr Hyfforddi
	Gitâr Iau
	Gitâr Hŷn
	Band Pres Ysgolion Uwchradd
	Jazz Iau
	Jazz Newyddion
	Côr Ieuenctid
	Pres Dechreuwyr
	Band Sylfaen
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf	Band Pres Ieuenctid
Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd	
CF14 2JL	
Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd (Safle Isaf)	Cerddorfa Sylfaen
Penlline Road	Pres Symffonig
Caerdydd, CF14 2XJ	Cerddorfa Ieuenctid
	Cerddorfa Ysgolion Uwchradd
	Dosbarthiadau Offerynnau Taro